

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM  
DEDDF TIROEDD COMIN 2006 ADRAN 15 (1) AC ADRAN 111  
DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972  
HYSBYSIAD GWRTHOD CAIS  
AR GYFER COFRESTRU MAES TREF NEU BENTREF  
CAE CHWARAE DEAN ROAD**

**Cais rhif WCBC-036152-VG14A -**

Rhoddir rhybudd drwy hyn bod y Cyngor yn ei swyddogaeth fel Awdurdod Cofrestru wedi gwrthod y Cais uchod i Gofrestru Tir fel Maes Tref neu Bentref.

Cyfarwyddodd y Cyngor Arolygydd Annibynnol i gynnal Ymchwiliad Cyhoeddus Anstatudol a chyflwyno argymhellion a ddylid caniatáu neu wrthod y Cais.

Cynhaliwyd yr Ymchwiliad Cyhoeddus ar 26 a 27 Mai 2022. Yn dilyn yr Ymchwiliad, cyflwynodd yr Arolygydd Annibynnol adroddiad dyddiedig 29 Mehefin 2022 a oedd yn argymhell y dylid gwrthod y Cais am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad ac yn benodol y dylid gwrthod y Cais oherwydd nad yw'r nifer sylweddol o drigolion lleol sydd wedi ymgymryd â chwaraeon a diddordebau cyfreithlon yn ystod y cyfnod o 20 mlynedd wedi gwneud hynny fel "mater o hawl" ar dir y cais, ond yn hytrach gyda chaniatâd.

Cymeradwywyd argymhellion yr Arolygydd Annibynnol gan y Cyngor yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 28 Medi 2022.

Mae adroddiad llawn y pwyllgor ar gael ar-lein ar y ddolen gyswllt isod:

[Adroddiad llawn y pwyllgor](#)

Gall unrhyw un sy'n dymuno derbyn copïau o'r dogfennau sy'n ymwneud â'r materion uchod, drefnu hynny trwy gyflwyno cais gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost cyswllt isod.

E-bost cyswllt: [legaldem@wrexham.gov.uk](mailto:legaldem@wrexham.gov.uk)

Dyddiedig 17 Tachwedd 2022

Linda Roberts

Prif Swyddog - Llywodraethu a Gwasanaethau Cwsmeriaid

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam